HM Government

# *Atal* canllaw ar ddyletswydd: ymgynghoriad

Rhagfyr 2014

# *Atal* canllaw ar ddyletswydd: ymgynghoriad

Ar gyfer ymgynghoriad:

Canllaw i awdurdodau penodedig ar y ddyletswydd i dalu sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.

Rhagfyr 2014

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Manylion yr ymgynghoriad | 7 |
| Statws a Chwmpas y Ddyletswydd | 9 |
| Cyflwyniad | 9 |
| Ymateb seiliedig ar risg i'r ddyletswydd *Atal* | 10 |
| Monitro a gorfodi | 12 |
| Canllaw penodol i'r sector. | 13 |
| Awdurdodau lleol | 13 |
| Addysg uwch | 17 |
| Addysg bellach | 22 |
| Ysgolion (ac eithrio addysg uwch a phellach) | 27 |
| Y sector iechyd | 30 |
| Carchardai a'r gwasanaeth prawf | 33 |
| Yr Heddlu | 38 |

# Manylion yr Ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Mae'r Bil gwrthderfysgaeth a Diogelwch, sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd, yn ceisio gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig (anodir yn llawn yn Atodlen 3 i'r Bil, ac a sefydlir yn y canllaw) i gael 'sylw dyledus, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth'. Mae atal pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth hefyd yn galw am herio syniadau eithafol ble'i defnyddir i gyfreithloni terfysgaeth a ble bydd grwpiau terfysgol yn eu rhannu. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r awdurdodau penodedig dalu sylw i ganllaw a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Atodir drafft o'r canllaw hwnnw yma, ar gyfer ymgynghoriad.

## Pwrpas

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu barnau ar y canllaw drafft gan: awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg uwch a phellach, y GIG, yr heddlu, llywodraethwyr carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc, a darparwyr gwasanaethau prawf. Rhestrir y cyrff hyn yn Atodlen 3 a byddant yn amodol i'r ddyletswydd, pan ddaw'r darpariaethau i rym.

Hoffem glywed hefyd gan gyrff eraill yn gweithio yn y meysydd hyn sy'n teimlo y dylent fod yn amodol i'r ddyletswydd.

Rydym wedi cynnwys cwestiynau ymgynghori penodol trwy gydol y ddogfen yr ydym yn gwahodd ymatebion arnynt. Ond yn fwy cyffredinol, hoffem glywed barnau ar ymarferoldeb y canllaw, pa fesurau eraill a ellid eu gweithredu'n gymesur i gydymffurfio â'r ddyletswydd, unrhyw enghreifftiau o arfer da presennol, ac unrhyw gyfleoedd a rhwystrau i weithredu.

## Gweithrediad yn yr Alban a Chymru

Bydd y ddyletswydd yn ymestyn i'r Alban a Chymru, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw awdurdodau Albanaidd wedi eu rhestru yn Atodlen 3 i'r Bil. Mae rhai awdurdodau Cymreig penodol wedi eu rhestru. Ble mae awdurdodau Cymreig a Seisnig yn wahanol, fodd bynnag, mae'r canllaw wedi ei ddrafftio i fod yn berthnasol i awdurdodau Lloegr yn unig hyd yn hyn. Gobaith a bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw y bydd awdurdodau'r Alban yn cael eu cynnwys, ac y bydd y canllaw hwn yn berthnasol i awdurdodau yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Disgwyliwn y bydd yr egwyddorion a chyfeiriad cyffredinol a sefydlir yn y canllaw hwn yn berthnasol i awdurdodau yn yr Alban a Chymru, ond yn gwerthfawrogi'n llawn na fydd hyn yn wir o ran nifer o'r manylion, ac i adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru a'r Alban, y bydd angen gwahaniaethu rhwng adrannau penodol.

Croesawn farnau ar ba awdurdodau yn yr Alban ddylai fod yn amodol i'r ddyletswydd, pa awdurdodau Cymreig eraill ddylid eu cynnwys, a sut ddylid addasu'r canllaw i fod yn berthnasol iddynt.

Mae hyn yn atodol i ymgynghoriad ffurfiol y mae'r Swyddfa'r Gartref yn cyflawni gyda llywodraethau'r Alban a Chymru.

## Amserlen

Bydd yr ymgynghoriad yn parhau am gyfnod o 6 wythnos. Byddwn yn ystyried ymatebion a dderbyniwyd hyd at hanner dydd ar **ddydd Gwener 30 Ionawr 2015**.

## Sut i ymateb

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu cynnwys trwy gydol y ddogfen i geisio barnau ar agweddau ac adrannau penodol o'r canllaw. Rydym yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau hyn, gyda thystiolaeth ategol ble fo ar gael, ac, fel uchod, sylwadau ar unrhyw faterion a godwyd gan y canllaw, megis enghreifftiau o arfer da.

Cyflwynwch ymatebion i'r cwestiynau a thystiolaeth arall i:
**Preventdutyconsultation@homeoffice.x.gsi.gov.uk** gan nodi "Ymgynghoriad canllaw" ym maes testun eich e-bost ymateb.

Dylid anfon ymatebion post at:

*Atal* Canllaw ar Ddyletswydd
6th Floor, Peel Building
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

## Delio â Gwybodaeth gan Unigolion

Efallai y bydd angen trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch i gydweithwyr yn y Swyddfa Gartref neu adrannau eraill y Llywodraeth, a gellir eu cyhoeddi'n llawn neu mewn crynodeb o ymatebion.

Gallai'r holl wybodaeth mewn ymatebion, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i gyhoeddi neu ddatgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (mae'r rhain yn bennaf y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych chi am i'ch ymateb barhau yn gyfrinachol, dylech esbonio pam fod angen cyfrinachedd ac fe gytunir i'ch cais dim ond os yw'n briodol dan yr amgylchiadau. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran. Cyhoeddir cyfraniadau i'r ymgynghoriad yn ddienw os y'i dyfynnir.

Ni fyddwn yn cydnabod derbyn cyfraniadau unigol oni bai y gofynnir yn benodol am hynny.

# Canllaw statudol drafft a gyhoeddwyd dan adran 24 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

## A. Statws a Chwmpas y Ddyletswydd

1. Mae Adran 21 y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar gyrff penodol, a restrir yn Atodlen 3 i'r Ddeddf, i dalu "*sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth*". Cyhoeddir y canllaw dan a24 y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdodau sy'n amodol i'r darpariaethau dalu sylw dyledus i'r canllaw hwn wrth gyflawni'r ddyletswydd.

2. Gellir dod o hyd i'r rhestr o awdurdodau sy'n amodol i'r darpariaethau yn Atodlen 3 i'r Ddeddf. Gellir canfod manylion pellach yn adrannau penodol i sectorau'r canllaw hwn.

## B. Cyflwyniad

3. Mae'r strategaeth *Atal*, a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn 2011, yn rhan o'n strategaeth gwrthderfysgaeth gyffredinol, CONTEST. Nod y strategaeth *Atal* yw lleihau'r bygythiad i'r Deyrnas Unedig o derfysgaeth trwy atal pobl rhag *dod* yn derfysgwyr neu *gefnogi* terfysgaeth. Yn y Ddeddf mae hyn wedi ei fynegi fel "*atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth*".

4. Mae gan y strategaeth *Atal* dri amcan strategol penodol:

- Ymateb i'r her ideolegol o derfysgaeth ac i'r bygythiad a wynebwn gan y rhai sy'n ei hyrwyddo;
- Atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth a sicrhau y rhoddir cyngor a chefnogaeth briodol iddynt; a
- Gweithio gyda sectorau a sefydliadau ble ceir risgiau o radicaleiddio y mae angen i ni roi sylw iddynt.

5. Mae grwpiau terfysgol yn aml yn defnyddio ideoleg eithafol, a ddatblygwyd gan sefydliadau eithafol; mae rhai pobl sy'n ymuno â grwpiau terfysgol wedi bod yn aelodau o sefydliadau eithafol yn flaenorol ac wedi eu radicaleiddio ganddynt. Mae'r llywodraeth wedi diffinio'r term eithafiaeth yn y strategaeth *Atal* fel: *"gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig, yn cynnwys democratiaeth, rheolaeth cyfraith, rhyddid unigol a pharch cilyddol a goddefgarwch o wahanol ffydd a chredoau. Rydym hefyd yn cynnwys yn ein diffiniad o eithafiaeth alwadau am farwolaeth aelodau ein lluoedd arfog"*.

6. Newidiwyd y strategaeth *Atal* yn benodol yn 2011 i ddelio â phob math o derfysgaeth a thargedu nid yn unig eithafiaeth dreisgar, ond hefyd eithafiaeth ddi-drais, sy'n gallu creu awyrgylch sy'n arwain i derfysgaeth a gallu poblogeiddio barnau y mae terfysgwyr yn manteisio arnynt. Mae hefyd wedi datgan yn glir bod atal pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth yn galw am herio syniadau eithafol ble'i defnyddir i gyfreithloni terfysgaeth a ble bydd grwpiau terfysgol yn eu rhannu. Ac mae'r strategaeth hefyd yn golygu ymyrryd i atal pobl rhag symud o grwpiau eithafol (er yn gyfreithiol) i weithgaredd sy'n ymwneud â therfysgaeth.

7. Bwriad ein gwaith *Atal* yw delio â phob math o fygythiad terfysgol i'r Deyrnas Unedig. Y mwyaf arwyddocaol o'r bygythiadau hyn ar hyn o bryd yw o grwpiau sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida a sefydliadau terfysgol eraill yn Syria ac Irac. Ond mae terfysgwyr sy'n gysylltiedig â'r adain dde eithafol hefyd yn cyflwyno bygythiad i'n diogelwch a diogeledd.

8. Mae eithafwyr Islamaidd yn ystyried ymyrraeth Orllewinol mewn gwledydd sydd â mwyafrif Mwslimaidd yn 'rhyfel yn erbyn Islam', gan greu naratif o 'nhw' a 'ni'. Mae eu hideoleg yn cynnwys y gred ddigyfaddawd na all pobl fod yn Fwslimaidd a Phrydeinig, ac na ddylai Mwslimiaid sy'n byw yma beidio cymryd rhan yn ein democratiaeth. Mae eithafwyr Islamaidd yn ymosod yn benodol ar egwyddorion cyfranogiad sifil a chydlyniad cymdeithasol. Mae'r eithafwyr hyn yn ymhonni i nodi cwynion y mae sefydliadau terfysgol yna'n honni i allu eu datrys.

9. Mae ideoleg goruchafiaeth y dyn gwyn y grwpiau adain dde eithafol hefyd wedi darparu'r ysbrydoliaeth a chyfiawnhad i bobl sydd wedi cyflawni gweithredoedd terfysgol adain dde eithafol.

10. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon yn adran 21 y Ddeddf, rydym yn disgwyl i'r holl awdurdodau penodedig gymryd rhan yn llawn i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Bydd sut maent yn gwneud hyn, ac i ba raddau, yn dibynnu ar nifer o ffactorau, er enghraifft, oed yr unigolyn, faint o ryngweithio sydd rhyngddynt ac ati. Yr awdurdodau penodedig yn Atodlen 3 i'r Ddeddf yw'r rhai a farnir i fod â rôl o ran diogelu pobl fregus ac/neu ein diogelwch cenedlaethol.

11. Mae'r canllaw hwn yn nodi'r arfer gorau ar gyfer pob un o'r prif sectorau ac yn disgrifio sut y gallant gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae'n cynnwys ffynonellau cyngor pellach ac yn darparu gwybodaeth ar sut fydd cydymffurfiad â'r ddyletswydd yn cael ei monitro.

## C. Ymateb seiliedig ar risg i'r ddyletswydd *Atal*

12. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd dylai pob awdurdod penodedig, fel man cychwyn, arddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risg o radicaleiddio yn eu hardal, sefydliad neu gorff. Bydd y risg hwn yn amrywio'n sylweddol a gall newid yn fuan; nid yw unrhyw ardal, sefydliad na chorff yn rhydd o risg. Tra bydd math a graddfa'r gweithgaredd fydd yn delio â'r risg yn amrywio, bydd angen i'r holl awdurdodau penodedig roi ystyriaeth ddyledus iddo.

13. Mae yna dair thema trwy gydol y canllaw penodol i'r sector, a sefydlir yn hwyrach yn y ddogfen hon: Arweinyddiaeth effeithiol, gweithio mewn partneriaeth a galluoedd priodol.

### Arweinyddiaeth

14. Ar gyfer pob awdurdod penodedig, disgwyliwn y bydd y rhai mewn safleoedd o arweinyddiaeth yn:

- Sefydlu neu ddefnyddio mecanweithiau presennol i ddeall y risg o radicaleiddio;
- Sicrhau bod staff yn deall y risg ac yn creu'r galluoedd i ddelio â hyn;
- Cyfathrebu a hyrwyddo pwysigrwydd y ddyletswydd; a
- Sicrhau bod staff yn gweithredu'r ddyletswydd yn effeithiol.

### Gweithio mewn partneriaeth

15. Mae gwaith *Atal* yn dibynnu ar bartneriaeth effeithiol. I arddangos cydymffurfiad effeithiol gyda'r ddyletswydd, rhaid i awdurdodau penodedig arddangos tystiolaeth o gydweithredu cynhyrchiol, yn arbennig felly gyda chydlynwyr *Atal* lleol, yr heddlu ac awdurdodau lleol, a chydlynu trwy fforymau amlasiantaethol presennol, er enghraifft, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

### Galluoedd

16. Dylai staff rheng flaen sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd ddeall beth mae radicaleiddio yn ei olygu a pham fod pobl yn agored i hyn. Mae angen iddynt fod yn ymwybodol o beth mae'r term "eithafiaeth" yn ei olygu i ni a'r berthynas rhwng eithafiaeth a therfysgaeth (gweler adran B, uchod).

17. Mae angen i staff wybod pa fesurau sydd ar gael i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth a sut i herio'r ideoleg eithafol all fod yn gysylltiedig â hyn. Mae angen iddynt ddeall sut i gael cefnogaeth i bobl sydd o bosibl yn cael eu camfanteisio gan ddylanwadau radicaleiddio.

18. Bydd angen i'r holl awdurdodau penodedig sy'n amodol i'r ddyletswydd sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant priodol i staff sy'n ymwneud â gweithredu'r ddyletswydd hon. Mae hyfforddiant o'r fath nawr ar gael yn eang.

### Rhannu gwybodaeth

19. Ni ddylai'r rhaglen *Atal* gynnwys unrhyw weithgaredd cudd yn erbyn pobl na chymunedau. Ond efallai y bydd angen i'r awdurdodau penodedig ddynodi gwybodaeth bersonol i sicrhau, er enghraifft, bod rhywun sydd dan risg o radicaleiddio yn cael cefnogaeth ddigonol (er enghraifft, ar y rhaglen Channel). Rhaid asesu pob cais ar sail fesul achos ac mae wedi ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth. I sicrhau y diogelir hawliau unigolion yn llawn, mae'n bwysig sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth ar lefel leol. Wrth ystyried rhannu gwybodaeth bersonol, dylai'r awdurdod penodedig ystyried y canlynol:

- **Angen a chymesuredd:** dylid rhannu gwybodaeth bersonol ble mae'n gwbl angenrheidiol i'r canlyniad arfaethedig yn unig ac yn gymesur i hyn. Yn allweddol i bennu angen a chymesuredd rhannu gwybodaeth fydd y farn broffesiynol o'r risgiau i unigolyn neu i'r cyhoedd.
- **Caniatâd:** ble bynnag fo'n bosibl, dylid cael caniatâd yr unigolyn dan sylw cyn rhannu unrhyw wybodaeth amdanynt.
- **Pŵer i rannu:** mae rhannu data gan gyrff sector cyhoeddus yn gofyn am bresenoldeb pŵer i wneud hynny, yn ogystal â bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
- **Deddf Diogelu Data a'r Ddyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gwlad:** wrth ymgysylltu â chyrff nad ydynt yn gyhoeddus, dylai'r awdurdod penodedig sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau eu hunain dan y Ddeddf Diogelu Data.

20. Gall fod amgylchiadau ble bydd yr awdurdodau penodedig, wrth gyflawni gwaith sy'n ymwneud ag *Atal*, yn nodi rhywun all eisoes fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd derfysgol anghyfreithlon. Dylid cyfeirio pobl a amheuir o fod yn ymwneud â gweithgaredd o'r fath at yr heddlu.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

1. *A oes yna unrhyw bwyntiau cyffredinol y dylid delio â nhw yn y canllaw hwn?*

## D. Monitro a gorfodi

21. Rhaid i bob awdurdod penodedig gydymffurfio â'r ddyletswydd hon a bydd disgwyl iddynt gadw cofnodion priodol i ddangos cydymffurfiad â'u cyfrifoldebau a darparu adroddiadau yn ôl y galw.

### Cefnogaeth a monitro o'r canol

22. Mae'r Swyddfa Gartref yn monitro gweithgaredd *Atal* mewn ardaloedd lleol sydd wedi eu nodi fel blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen hon ac a fydd yn darparu monitro canolog ar gyfer y ddyletswydd newydd. Mae'r Swyddfa Gartref yn rhannu rheolaeth (gydag awdurdodau lleol) o dimau cydlynwyr *Atal* lleol.

23. Bydd y Swyddfa Gartref yn:

- Casglu data ynghyd am weithrediad Atal gan gydlynwyr Atal lleol a rhanbarthol (yn cynnwys y rhai mewn addysg, addysg bellach ac addysg uwch), yr heddlu, asiantaethau cudd-wybodaeth ac adrannau a chyrff archwilio eraill ble fo'n briodol;
- Monitro ac asesu cyflawniad Atal mewn hyd at 50 o ardaloedd blaenoriaeth Atal;
- Cynnal cyswllt ag adrannau perthnasol ac uwchgyfeirio materion iddynt ac arolygiaethau ble fo'n briodol.
- Cefnogi'r Bwrdd Goruchwylio Atal, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog ar gyfer Mewnfudo a Diogelwch, a all gytuno ar gamau pellach i gefnogi gweithrediad y ddyletswydd.

24. Ble nad yw corff penodedig yn cydymffurfio â'r ddyletswydd, gallai'r Bwrdd Goruchwylio *Atal* argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio grym cyfeirio dan adran 23 y Ddeddf. Dim ond pan fydd opsiynau eraill ar gyfer ymgysylltu a gwelliant wedi eu disbyddu y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio. Byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio i sicrhau gweithrediad a chyflawniad y ddyletswydd *Atal* yn unig.

### Cyfundrefn archwilio mewn sectorau unigol

25. Bydd cyfundrefnau archwilio presennol yn cefnogi cefnogaeth a monitro canolog mewn sectorau penodol. Nid oes gan bob awdurdod penodedig gyfundrefn archwilio addas ac mewn rhai ardaloedd gall fod angen creu neu hybu cyfundrefnau presennol.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

2. *A oes yna unrhyw feysydd eraill o weithgarwch y dylid eu hystyried fel rhan o'r trefniadau monitro canolig?*
3. *Pa gyrff arolygu yw'r rhai gorau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth ar gyfer y ddyletswydd hon?*

# E. Canllaw penodol i'r sector

## Awdurdodau lleol

26. Gyda'u cyfrifoldebau eang, ac atebolrwydd democrataidd i'w hetholaeth, mae awdurdodau lleol yn allweddol i waith *Atal*. Bydd awdurdodau lleol effeithiol yn gweithio gyda'u partneriaid lleol i ddiogelu'r cyhoedd, atal troseddau a hyrwyddo cymunedau cryf, integredig.

### Awdurdodau lleol penodedig

27. Rhestrir yr awdurdodau lleol sy'n amodol i'r ddyletswydd yn Atodlen 3 i'r Ddeddf. Y rhain yw:

- Cyngor sir neu gyngor dosbarth yn Lloegr;
- Awdurdod Llundain Fwyaf;
- Cyngor bwrdeistref Llundain;
- Cyngor Cyffredin Dinas Llundain yn ei gymhwyster fel awdurdod lleol; a
- Cyngor Ynysoedd Sili.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

4. *A oedd yna ragor o awdurdodau lleol a ddylai fod yn rhan o'r ddyletswydd hon?*

28. Wrth gyflawni'r ddyletswydd newydd, dylai awdurdodau lleol, yn cynnwys Aelodau etholedig ac uwch swyddogion, fod yn cyflawni gweithgaredd yn y meysydd canlynol.

### Partneriaeth

29. Dylai awdurdodau lleol sefydlu neu wneud defnydd o grŵp amlasiantaethol lleol presennol i gytuno ar risg a chydlynu gweithgaredd *Atal*. Mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ond efallai y bydd fforymau amlasiantaethol eraill yn briodol.

30. Bydd yn bwysig fod gan gydlynwyr *Atal* lleol neu ranbarthol fynediad at arweinyddiaeth awdurdod leol uwch i roi cyngor a chefnogaeth.

31. Rydym yn disgwyl i grwpiau amlasiantaethol lleol sefydlu, trwy awdurdodau lleol, drefniadau i fonitro effaith gwaith *Atal* yn effeithiol.

## Asesu risg

32. Disgwyliwn i awdurdodau lleol ddefnyddio'r proffiliau gwrthderfysgaeth lleol (CTLP) presennol, a gynhyrchwyd ar gyfer pob rhanbarth gan yr heddlu, i ddechrau asesu'r risg o ddenu unigolion i derfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig eithafiaeth dreisgar, ond hefyd eithafiaeth nad yw'n dreisgar, a all greu awyrgylch sy'n annog terfysgaeth ac yn poblogeiddio barnau y mae terfysgwyr yn camfanteisio arnynt.

33. Dylai'r asesiad risg hefyd gael ei hysbysu gan ymgysylltu â chydlynwyr *Atal*, ysgolion, prifysgolion, colegau, carchardai lleol, gwasanaethau prawf, iechyd, gorfodi mewnfudo ac eraill.

34. Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ymgorffori'r ddyletswydd i bolisïau a gweithdrefnau presennol, fel ei fod yn dod yn rhan o waith dydd i ddydd yr awdurdod. Mae'r ddyletswydd yn debygol o fod yn berthnasol i gyflawni cyfrifoldebau diogelu o ran y byddai awdurdodau lleol yn sicrhau bod yna bolisïau diogelu clir a chadarn i nodi plant dan risg.

## Cynllun gweithredu

35. Gyda chefnogaeth cydlynwyr ac eraill yn ôl yr angen, dylai unrhyw awdurdod lleol sy'n asesu, trwy'r grŵp amlasiantaethol, bod yna risg ddatblygu cynllun gweithredu *Atal*. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i gydymffurfio â'r ddyletswydd a delio â pha bynnag risgiau a nodwyd.

36. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn nodi, blaenoriaethu a hwyluso cyflawniad prosiectau, gweithgareddau neu ymyraethau penodol i leihau'r risg o ddenu pobl i derfysgaeth ym mhob awdurdod lleol. Gallai prosiectau gynnwys sefydliadau ffydd, ac ysgolion lleol.

## Hyfforddiant staff

37. Bydd disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod gan staff rheng flaen ddealltwriaeth dda o *Atal*, eu bod wedi eu hyfforddi i adnabod rhai sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth ac yn ymwybodol o raglenni sydd ar gael i ddelio â'r mater hwn.

38. Bydd disgwyl i staff awdurdod lleol wneud atgyfeiriadau priodol i Channel (rhaglen sy'n darparu cefnogaeth i unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth a sefydlir trwy statud yn y ddeddfwriaeth hon) a sicrhau bod Channel yn cael ei gefnogi gan y sefydliad ac arbenigedd priodol. Ceir canllaw ar y rhaglen Channel yma:

**https://www.gov.uk/government/publications/channel-guidance**

## Defnydd o adnoddau awdurdod lleol

39. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau nad yw lleoliadau ac adnoddau dan berchnogaeth gyhoeddus yn darparu llwyfan i eithafwyr ac na'i defnyddir i ledaenu barnau eithafol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ddylai offer TG sydd ar gael i'r cyhoedd ddefnyddio datrysiadau hidlo sy'n cyfyngu ar fynediad i ddeunydd terfysgol ac eithafol.

40. Rydym hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau nad yw sefydliadau sy'n gweithio gyda'r awdurdod ar *Atal* yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd eithafol neu'n cefnogi barnau eithafol.

## Awdurdodau dwy haen

41. Mewn ardaloedd dwy haen, bydd angen i gynghorau sir a dosbarth gytuno ar drefniadau cymesur i rannu'r asesiad risg ac i gytuno ar gynlluniau gweithredol lleol *Atal*.

## Meysydd blaenoriaeth atal

42. Bydd y Swyddfa Gartref yn dal i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithgaredd sy'n ymwneud ag *Atal*. Bydd meysydd blaenoriaeth, fel y maent ar hyn o bryd, yn cael eu hariannu i gyflogi cydlynydd *Atal* lleol i roi cefnogaeth ac arbenigedd atodol ac mae cyllid grant ychwanegol ar gael gan y Swyddfa Gartref ar gyfer prosiectau a gweithgareddau *Atal*. Mewn ardaloedd eraill penodol, nad oes ganddynt gydlynydd *Atal* lleol wedi ei ariannu gan y Swyddfa Gartref, bydd adnoddau ar gael ar gyfer prosiectau a gweithgareddau. Bydd y Swyddfa Gartref yn dal i oruchwylio cydlynwyr *Atal* lleol ac i ariannu, gwerthuso a monitro'r prosiectau hyn.

## Asiantaethau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant

43. Mae detholiad o asiantaethau a sefydliadau preifat a gwirfoddol yn darparu gwasanaethau (neu, mewn rhai achosion, yn arfer swyddogaethau) parthed plant, a fyddai fel arall yn cael eu darparu (neu arfer) gan awdurdodau lleol, naill ai ar ran yr awdurdod lleol neu yn lle'r awdurdod lleol (gall hyn fod mewn achosion o berfformiad annigonol, ble mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn defnyddio grymoedd ymyrryd i gyfeirio gofal cymdeithasol plant awdurdod lleol penodol neu swyddogaethau addysg i'w harfer yn lle, neu ar ran, yr awdurdod lleol gan drydydd parti). Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i'r cyrff hynny, yn cynnwys cartrefi plant ac asiantaethau maethu annibynnol. Dylai'r cyrff hyn sicrhau eu bod yn rhan o drefniadau diogelu eu hawdurdodau lleol a bod staff yn ymwybodol o ac yn gwybod sut i gyfrannu i weithgaredd sy'n ymwneud ag *Atal* yn eu hardal ble fo'n briodol.

## Lleoliadau tu allan i'r ysgol sy'n cefnogi plant

44. Mae nifer o blant yn mynychu amrywiaeth o leoliadau allan o'r ysgol gan gynnwys clybiau a grwpiau ar ôl ysgol, ysgolion atodol, a chanolfannau dysgu i gefnogi addysg yn y cartref. Nid yw'r lleoliadau hynny wedi eu rheoleiddio dan gyfraith addysg. Dylai awdurdodau lleol gymryd camau i ddeall yr amrywiaeth o weithgareddau a lleoliadau yn eu hardaloedd a sicrhau bod plant yn mynychu lleoliadau o'r fath wedi eu diogelu'n briodol (a ddylai gynnwys a oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig i *Atal*). Wrth asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â lleoliadau o'r fath, dylai awdurdodau lleol ystyried a yw'r lleoliadau yn tanysgrifio i gynllunio achredu gwirfoddol ac unrhyw dystiolaeth arall ynghylch i ba raddau mae'r darparwyr yn cymryd camau i ddiogelu'r plant dan eu gofal. Ble mae pryderon diogelu yn codi, dylai awdurdodau lleol ystyried yn weithredol sut i wneud defnydd llawn o'r ystod o rymoedd sydd ar gael iddynt i leihau'r risgiau i blant, gan gynnwys pwerau cynllunio ac iechyd a diogelwch.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

5. *A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys yn y canllaw hwn?*
6. *Pa bartneriaid eraill ddylai awdurdodau lleol fod yn gweithio â nhw?*

## Monitro a gorfodi

45. Wrth gyflawni ei rôl monitro ganolog (adran D uchod), gall y Swyddfa Gartref (fel y mae eisoes yn gwneud) graffu ar gynlluniau gweithredu *Atal* lleol, effaith prosiectau a pherfformiad cyffredinol. Bydd hefyd yn gweithio gyda 'chymheiriaid' awdurdod lleol i ddarparu cymorth targedig ac i reoli'r broses arolwg cyfoedion i helpu awdurdodau lleol i ddatblygu arfer da.

46. Wrth fonitro cydymffurfiad â'r ddyletswydd hon, rydym yn disgwyl defnyddio mecanweithiau presennol. Dan Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 1999, gall yr Ysgrifennydd Gwladol eisoes benodi arolygwr i asesu cydymffurfiad awdurdod â'i ddyletswydd "gwerth gorau" statudol parthed un neu fwy o'r swyddogaethau penodedig.

47. Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon fod cyngor wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd "gwerth Gorau" parthed y ddyletswydd *Atal* newydd, byddai'n gallu defnyddio ei bwerau dan Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999 i ymyrryd. Gallai hyn gynnwys gofyn i'r cyngor gyflawni gweithredoedd penodol, penodi Comisiynwyr a throsglwyddo rhai o swyddogaethau'r cyngor iddynt. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r cyngor cyn cyhoeddi cyfarwyddyd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyfeirio y dylid cynnal ymchwiliad lleol i weithrediad swyddogaethau penodol gan yr awdurdod.

48. Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon fod awdurdod lleol yn methu â chyflawni unrhyw swyddogaeth parthed addysg neu ofal cymdeithasol pant i safon ddigonol, yna gall ddefnyddio ei rymoedd dan adran 497A Deddf Addysg 1996 (sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol plant dan adran 50 Deddf Plant 2004) i gymryd pa bynnag gamau a bennir i fod yn hwylus i gyflawni'r gwelliant angenrheidiol. Fe ystyrir y mesurau ymyrraeth hyn mewn achosion ble mae archwiliadau Ofsted yn nodi arferion annigonol a phryderon difrifol ynghylch ymarfer parthed diogelu, mabwysiadu a phlant sy'n derbyn gofal.

49. Yn ogystal â'r grymoedd uchod, mae'r Ddeddf yn darparu'r Ysgrifennydd Gwladol â'r pŵer i gyhoeddi cyfarwyddyd ble mae awdurdod lleol wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd (gweler paragraff 24,uchod).

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

7. *Yn eich barn chi a yw'r trefniadau monitro a gorfodi hyn yn ddigonol? Os nad, pa drefniadau hoffech chi eu gweld?*

## Addysg uwch

50. Mae ymroddiad prifysgolion i ryddid i lefaru a'r rhesymoledd sy'n sail i ddyrchafiad gwybodaeth yn golygu eu bod yn cynrychioli un o'n meysydd pwysicaf o ran herio barnau ac ideoleg eithafol. Fodd bynnag, mae yna risg hefyd y gall rhai pobl ddefnyddio sefydliadau addysg uwch fel llwyfan i ddenu pobl i derfysgaeth. Rhaid i brifysgolion gymryd eu cyfrifoldeb i eithrio'r rhai sy'n hyrwyddo barnau eithafol sy'n cefnogi neu'n annog terfysgaeth o ddifrif.

### Awdurdodau penodedig addysg uwch

51. Mae'r sefydliadau addysg uwch a nodir yn Atodlen 3 i'r Ddeddf yn syrthio i ddau gategori.

- Pob sefydliad addysg uwch ar gofrestr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE). Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sydd o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol:
  - Darparwyr sy'n derbyn grantiau cyhoeddus uniongyrchol ar gyfer addysg uwch;
  - Y rhai sy'n darparu cyrsiau sydd wedi eu penodi'n benodol gan y llywodraeth i fod yn gymwys i ddibenion cyllid i gefnogi myfyrwyr Lloegr; a
  - Sefydliadau addysg uwch gyda'r hawl i ddyfarnu un math o radd o'r Deyrnas Unedig neu fwy.
- Sefydliadau addysg uwch preifat nad ydynt yn derbyn cyllid cyhoeddus gan HEFCE ond sydd â nodweddion tebyg i'r rhai ar y gofrestr. Rydym yn diffinio'r rhain fel sefydliadau sydd:
  - Ag adeilad corfforol;
  - Sydd ag o leiaf 250 o fyfyrwyr; ac
  - Sy'n dysgu pobl mewn lleoliad grŵp i baratoi ar gyfer arholiadau ac sydd naill ai'n derbyn cyllid cyhoeddus neu wedi eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

8. *A oes yna sefydliadau eraill, heb eu rhestru yma, y dylid eu cynnwys yn y ddyletswydd?*
*Eglurwch pam.*

52. Mae gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn eisoes ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag *Atal*, yn cynnwys yr angen i sicrhau a hyrwyddo rhyddid i lefaru tra'n talu sylw dyledus i les eu myfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Mae sefydliadau eisoes yn arddangos rhywfaint o arfer da yn y meysydd hyn. Nid ydym yn rhagweld y bydd y ddyletswydd newydd yn creu beichiau mawr newydd ar sefydliadau a bwriadwn y bydd yn cael ei weithredu mewn modd cymesur, seiliedig ar risg.

53. I gydymffurfio â'r ddyletswydd byddem yn disgwyl i brifysgolion a sefydliadau addysg uwch fod yn cyflawni yn y meysydd canlynol.

## Partneriaeth

54. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, byddem yn disgwyl ymgysylltu gweithredol gan Is-Gangellorion ac uwch reolwyr y brifysgol gyda phartneriaid eraill yn cynnwys yr heddlu a chydlynwyr *Atal* awdurdodau lleol.

55. O ystyried maint a chymhlethdod y rhan fwyaf o'r sefydliadau, byddem hefyd yn disgwyl gweld grŵp trawsadrannol mewnol sy'n rhannu gwybodaeth ar draws ysgolion perthnasol y sefydliad, gydag un pwynt cyswllt ar gyfer cyflawniad gweithredol gweithgaredd yn ymwneud ag *Atal*.

56. Byddem yn disgwyl i sefydliadau gael cyswllt rheolaidd gyda'u cydlynwyr addysg uwch *Atal* rhanbarthol. Bydd y cydlynwyr hyn yn helpu prifysgolion i gydymffurfio â'r ddyletswydd a gallant ddarparu cyngor a chanllaw ar risg ac ar yr ymateb priodol. Mae manylion cyswllt y cydlynwyr hyn ar gael ar wefan BIS.

## Asesu risg

57. Bydd disgwyl i sefydliadau gyflawni asesiad risg sy'n asesu ble a sut y gallai eu myfyrwyr wynebu perygl o gael eu denu i derfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig eithafiaeth dreisgar, ond hefyd eithafiaeth nad yw'n dreisgar, a all greu awyrgylch sy'n annog terfysgaeth ac yn poblogeiddio barnau y mae terfysgwyr yn camfanteisio arnynt. Bydd help a chyngor ar gael i wneud hyn.

58. Byddem yn disgwyl i'r asesiad risg edrych ar bolisïau sefydliadol parthed y campws a lles myfyrwyr, yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth a diogelwch a lles myfyrwyr a staff. Byddem hefyd yn disgwyl i'r asesiad risg asesu rheolaeth gorfforol ystâd y brifysgol yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau ar gyfer digwyddiadau a gynhelir gan staff, myfyrwyr neu ymwelwyr.

## Cynllun Gweithredu

59. Gyda chefnogaeth cydlynwyr, ac eraill yn ôl yr angen, dylai unrhyw sefydliad sy'n nodi risg ddatblygu cynllun gweithredu *Atal*. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i gydymffurfio â'r ddyletswydd a delio â'r risgiau hynny.

## Hyfforddiant Staff

60. Bydd cydymffurfiad â'r ddyletswydd hefyd yn gofyn i'r sefydliad arddangos ei fod yn barod i gyflawni hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* a hyfforddiant arall a allai helpu staff i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth a herio syniadau eithafol y gellir eu defnyddio i gyfreithloni terfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgol. O ganlyniad byddem yn disgwyl i'r holl staff gael dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gwneud i bobl gefnogi ideolegau terfysgol neu gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â therfysgaeth. Dylai staff feddu ar hyfforddiant digonol i allu adnabod y rhai sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth, a bod yn ymwybodol o ba gamau i'w cymryd mewn ymateb. Bydd hyn yn cynnwys dealltwriaeth o bryd i gyfeirio at y rhaglen Channel a ble i gael cyngor a chefnogaeth atodol.

61. Byddem yn disgwyl i'r sefydliad gael gweithdrefnau cadarn yn fewnol ac allanol i rannu gwybodaeth ynglŷn ag unigolion bregus (ble fo'n briodol i wneud hynny). Dylai hyn gynnwys cytundebau rhannu gwybodaeth ble fo'n bosibl. Ar gyfer sefydliadau mwy gyda chyfleusterau ac adrannau niferus, byddem hefyd yn disgwyl cael panel mewnol staff Channel i ddarparu cefnogaeth a chyngor a gwneud penderfyniadau cyn rhannu gwybodaeth tu allan i'r brifysgol.

62. Mae BIS yn cynnig hyfforddiant am ddim ar gyfer staff addysg uwch a phellach trwy ei rwydwaith o gydlynwyr *Atal* addysg uwch a phellach rhanbarthol. Mae hyn yn cwmpasu diogelu a nodi rhai sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth a gellir ei deilwra i weddu i bob sefydliad neu grŵp o unigolion.

### Lles a gofal bugeiliol/cefnogaeth caplaniaeth

63. Mae gan brifysgolion gyfrifoldeb i ofalu am eu myfyrwyr a byddem yn disgwyl, yn rhan o'r gofal bugeilion a chefnogaeth sydd ar gael, y byddai digon o gefnogaeth caplaniaeth a bugeilion i'r holl fyfyrwyr yn ôl anghenion y sefydliad penodol. Ystyrir hyn i fod yn elfen allweddol o gydymffurfiad â'r ddyletswydd. Mae cefnogaeth ar gael gan y cydlynydd *Atal* addysg uwch a phellach rhanbarthol.

### Siaradwyr a digwyddiadau

64. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, dylai pob prifysgol gael polisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli digwyddiadau ar y campws a defnydd o holl eiddo'r brifysgol. Dylai'r polisïau fod yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr a datgan yn glir beth sydd angen er mwyn i unrhyw ddigwyddiad fynd yn ei flaen.

65. Yn amlwg mae angen i'r brifysgol gydbwyso ei ddyletswyddau cyfreithiol o ran sicrhau rhyddid i lefaru a diogelu lles myfyrwyr a staff. Mae canllaw ar gael gan Universities UK ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i gefnogi sefydliadau i wneud penderfyniadau ynghylch cynnal digwyddiadau ac i sefydlu'r mesurau diogelwch priodol.

**http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/Externalspeakersinhighereducationinstitutions.aspx**

**http://www.nusconnect.org.uk/asset/News/6013/Hate-Speech-Guidance-Web.pdf**

66. Rhaid i brifysgolion gymryd eu cyfrifoldeb i eithrio'r rhai sy'n hyrwyddo barnau eithafol sy'n cefnogi neu'n annog terfysgaeth o ddifrif. Byddem yn disgwyl i'r polisïau a gweithdrefnau ar siaradwyr a digwyddiadau gynnwys o leiaf y canlynol:

- Digon o rybudd o'r digwyddiad (yn gyffredinol o leiaf 14 niwrnod) i ganiatáu ar gyfer cyflawni gwiriadau ac i ganslo os oes angen;
- Rhybudd o flaen llaw o gynnwys y digwyddiad, yn cynnwys amlinelliad o'r pynciau i'w trafod a gweld unrhyw gyflwyniadau, darnau o ffilm i'w darlledu ac ati;
- System i asesu a graddio risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddigwyddiadau a gynlluniwyd, darparu tystiolaeth i awgrymu a ddylai digwyddiad fynd yn ei flaen, gael ei ganslo neu a oes angen mesurau lliniarol (er enghraifft, gwarant o safbwynt gwrthwynebol yn y drafodaeth, neu rywun yn y gynulleidfa i fonitro'r digwyddiad); a
- Mecanwaith i reoli digwyddiadau neu achosion le mae digwyddiadau oddi ar y campws sy'n peri gofid yn cael eu hyrwyddo ar y campws.

67. Ble fo'n briodol a chyfreithiol i wneud hynny, dylai prifysgol hefyd sefydlu protocolau i rannu gwybodaeth am siaradwyr gyda sefydliadau a phartneriaid eraill.

### Diogelwch ar-lein

68. Byddem yn disgwyl i brifysgolion gael polisïau yn ymwneud â defnyddio TG ar y campws. Tra bydd gan bob sefydliad bolisi am ddefnydd cyffredinol, yn cwmpasu beth a ganiateir neu beidio, byddem yn disgwyl i'r polisïau hyn gynnwys cyfeiriad penodol at y ddyletswydd statudol. Mae nifer o sefydliadau addysgol eisoes yn defnyddio hidlo fel modd o gyfyngu mynediad at gynnwys niweidiol, a dylid ystyried defnyddio hidlwyr yn rhan o'u strategaeth gyffredinol i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.

69. I alluogi'r brifysgol i nodi a delio â materion ble ceir mynediad at ddeunyddiau ar-lein i ddibenion nad ydynt yn ymchwil, byddem yn disgwyl gweld polisïau a gweithdrefnau clir i fyfyrwyr a staff yn gweithio ar ymchwil sensitif neu'n ymwneud ag eithafiaeth. Mae Universities UK wedi darparu canllaw i helpu prifysgolion i reoli hyn, sydd ar gael ar:

**http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/OversightOfSecuritySensitiveResearchMaterial.aspx**

### Undebau a chymdeithasau myfyrwyr

70. Dylai sefydliadau dalu sylw i'r ddyletswydd yng nghyd-destun eu perthynas a rhyngweithio ag undebau a chymdeithasau myfyrwyr. Bydd angen iddynt sefydlu polisïau clir yn nodi'r gweithgareddau y caniateir iddynt ddigwydd ar y campws neu beidio, ac unrhyw weithgaredd ar-lein sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r brifysgol. Dylai'r polisïau sefydlu beth a ddisgwylir gan undebau a chymdeithasau myfyrwyr o ran *Atal* gan gynnwys esbonio'r angen i herio syniadau eithafol a ddefnyddir i gyfreithloni terfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgol. Byddem yn disgwyl i undebau a chymdeithasau myfyrwyr weithio'n agos gyda'u sefydliad a chydweithio gyda pholisïau'r sefydliadau.

71. Dylai undebau myfyrwyr hefyd ystyried a fyddai eu staff a swyddogion etholedig yn elwa o hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* neu'r hyfforddiant cadeirio a hwyluso a gynigir gan y cydlynwyr *Atal* addysg bellach ac uwch ranbarthol. Mae nifer o undebau myfyrwyr eisoes wedi cyflawni hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* a gall cydlynwyr addysg uwch roi cyngor ar y pecynnau hyfforddiant mwyaf priodol.

### Cyfleusterau gweddi a ffydd

72. Byddem yn disgwyl i'r sefydliad gael polisïau clir ac ar gael yn eang o ran defnyddio ystafelloedd gweddi a chyfleusterau eraill yn ymwneud â ffydd. Dylai'r polisïau hyn amlinellu trefniadau i reoli cyfleusterau gweddi a ffydd (er enghraifft, pwyllgor goruchwylio) ac i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi o ddefnydd o'r cyfleusterau. Dylai'r polisïau a gweithdrefnau hyn sefydlu'n glir amseroedd ac argaeledd cyfleusterau i'r fath a sut y rheolir mynediad tu allan i oriau gwaith.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

9. *A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys yn y canllaw hwn?*

## Monitro a gorfodi

73. Yn ogystal â monitro o'r canol (adran D, uchod), bydd BIS yn defnyddio'r cydlynwyr addysg uwch *Atal* rhanbarthol a darparwyr lleol eraill i bennu sut mae'r ddyletswydd yn cael ei gweithredu a'i dilyn mewn sefydliadau (bydd hyn yn cynnwys gwerthusiad o gamau ar gwynion a chwythu'r chwiban).

74. Er mwyn sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'r llywodraeth yn ystyried ehangu pwerau presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) i'w ganiatáu i fod y corff sy'n monitro cydymffurfiad â'r ddyletswydd hon ar gyfer sefydliadau addysg uwch a darparwyr AU preifat. Barn y llywodraeth yw bod HEFCE yn y safle gorau i gyflawni'r rôl hon oherwydd bod ganddynt eisoes rôl yn monitro rhai sefydliadau AU parthed llywodraethu a chyllid. Byddai unrhyw estyniad i rôl bresennol HEFCE yn galw am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*10. A ydych chi'n cytuno mai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yw'r corff priodol i fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon?*

*11. A oes yna gyrff addysg uwch rheoleiddiol eraill a ddylai fod yn rhan o fonitro cydymffurfiaeth?*

## Addysg bellach

75. Mae yna rôl bwysig ar gyfer sefydliadau addysg bellach, yn cynnwys colegau chweched dosbarth, o ran helpu pobl sy'n cael eu denu i derfysgaeth, sy'n cynnwys nid yn unig eithafiaeth dreisgar, ond hefyd eithafiaeth ddi-drais, sy'n gallu creu awyrgylch sy'n arwain i derfysgaeth a gallu poblogeiddio barnau y mae terfysgwyr yn manteisio arnynt. Mae'n amod i gyllid bod yn rhaid i bob darparwr addysg bellach gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gyfrifoldebau statudol sy'n gysylltiedig â chyflawni addysg a diogelu dysgwyr.

### Awdurdodau penodedig addysg bellach

76. Mae'r sefydliadau addysg bellach a nodir yn Atodlen 3 i'r Ddeddf yn syrthio i ddau gategori:

- Sefydliadau addysg bellach ar y gofrestr Asiantaeth Ariannu Sgiliau (SFA). Mae hyn yn cynnwys tua 950 o golegau addysg bellach a darparwyr annibynnol – megis cwmnïau preifat a sefydliadau trydydd sector sy'n gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus gan yr SFA i gyflawni addysg a hyfforddiant – yn ogystal ag isgontractwyr sy'n derbyn mwy na £100,000 o gyllid SFA trwy brif ddarparwyr;
- Sefydliadau addysg bellach preifat nad ydynt yn derbyn cyllid cyhoeddus gan yr SFA ond sydd â nodweddion tebyg i'r rhai ar y gofrestr. Rydym yn diffinio'r rhain fel sefydliadau sydd:
  - Ag adeilad corfforol;
  - Sydd ag o leiaf 250 o fyfyrwyr; ac
  - Sy'n dysgu pobl mewn lleoliad grŵp i baratoi ar gyfer arholiadau ac sydd naill ai'n derbyn cyllid cyhoeddus neu wedi eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*12. A oes yna sefydliadau eraill, heb eu rhestru yma, y dylid eu cynnwys yn y ddyletswydd? Eglurwch pam.*

77. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau eisoes yn derbyn eu cyfrifoldebau yn ymwneud ag *Atal*, yn arbennig yng nghyd-destun sicrhau lles dysgwyr, staff ac ymwelwyr ac mae yna sawl enghraifft o arfer da yn y meysydd hyn. Fel gydag addysg uwch, bydd cydymffurfiad â'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu arfer gorau presennol ac ni ddylai ychwanegu beichiau newydd arwyddocaol ar sefydliadau. Dylid ei weithredu mewn modd cymesur, seiliedig ar risg.

78. I gydymffurfio â'r ddyletswydd byddem yn disgwyl i sefydliadau addysg bellach fod yn cyflawni yn y meysydd canlynol.

## Partneriaeth

79. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, byddem yn disgwyl ymgysylltu gweithredol gan Lywodraethwyr, Penaethiaid, rheolwyr ac arweinyddion gyda phartneriaid eraill yn cynnwys yr heddlu a chydlynwyr *Atal* awdurdodau lleol.

80. Pan fydd maint sefydliad yn caniatáu hynny, byddem yn disgwyl gweld trefniadau rheoli a chydlynu yn cael eu gweithredu i rannu gwybodaeth ar draws y meysydd cwricwlwm perthnasol mewn sefydliad, gydag un pwynt cyswllt ar gyfer cyflawniad gweithredol gweithgaredd yn ymwneud ag *Atal*.

81. Byddem yn disgwyl i sefydliadau gael cyswllt rheolaidd gyda'u cydlynwyr addysg bellach *Atal* rhanbarthol. Bydd y cydlynwyr hyn yn helpu sefydliadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd a gallant ddarparu cyngor a chanllaw ar risg ac ar yr ymateb priodol.

## Asesu risg

82. Fel sefydliadau annibynnol, mae'n ofynnol i bob sefydliad gael polisïau clir a gweladwy ar waith yn cwmpasu staff, dysgwyr, dysgu a seilwaith (defnydd o eiddo), sy'n gallu nodi ble gallai myfyrwyr neu staff fod dan risg o gael eu denu i derfysgaeth. Bydd y polisïau a gweithdrefnau hyn yn helpu sefydliad i fodloni ei hun a'r llywodraeth ei fod yn gallu nodi a chefnogi'r unigolion hyn.

83. Bydd y ddyletswydd hon yn cyd-fynd â chyfrifoldeb y sefydliad dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cwmpasu lles myfyrwyr, yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelwch myfyrwyr a staff, a sicrhau bod yna ymwybyddiaeth o'r risgiau o gael eich denu i derfysgaeth trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal*.

84. Disgwyliwn i'r asesiad risg ddelio â rheolaeth gorfforol ystâd y sefydliad, yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau ar gyfer digwyddiadau a gynhelir gan staff, myfyrwyr neu ymwelwyr, a pherthnasau gyda chyrff allanol a grwpiau cymunedol a all ddefnyddio'r eiddo, ac/neu weithio mewn partneriaeth â'r sefydliad.

85. Rhaid bod gan sefydliadau bolisïau clir a gweladwy i reoli chwythu'r chwiban a chwynion.

86. Ble bydd sefydliad wedi is-gontractio cyflawniad cyrsiau, disgwyliwn y bydd gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn arwain yn ddamweiniol at ariannu sefydliadau eithafol.

## Cynllun Gweithredu

87. Dylai unrhyw sefydliad sy'n nodi risg hysbysu ei gydlynydd ac eraill yn ôl yr angen ddatblygu cynllun gweithredu *Atal*. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i gydymffurfio â'r ddyletswydd a gweithredu i ddelio â pha bynnag risgiau a nodwyd.

## Hyfforddiant Staff

88. Bydd cydymffurfiad â'r ddyletswydd hefyd yn gofyn i sefydliad arddangos ei fod yn cyflawni hyfforddiant a datblygiad priodol ar gyfer Llywodraethwyr, arweinyddion a staff. Bydd hyn yn galluogi athrawon ac eraill sy'n cefnogi cyflawniad y cwricwlwm i ddefnyddio cyfleoedd mewn dysgu i addysgu a herio. Bydd hefyd yn galluogi arweinyddion ac athrawon i ddarparu enghreifftiau o werthoedd Prydeinig yn eu rheolaeth, dysgu a thrwy ymddygiadau cyffredinol

mewn sefydliadau, yn cynnwys sicrhau y defnyddir cyfleoedd yn y cwricwlwm addysg bellach i hyrwyddo'r gwerthoedd Prydeinig i ddysgwyr.

89. Rydym yn diffinio gwerthoedd sylfaenol Prydeinig fel "*democratiaeth, rheol cyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharch cilyddol a goddefgarwch i rai o wahanol ffydd a chredo*", ac fe ddisgwyliwn i sefydliadau annog myfyrwyr i barchu pobl eraill gyda sylw penodol at y nodweddion gwarchodedig a sefydlir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (yn cynnwys yr hyn a ddefnyddir ar gyfer ysgolion).

90. Byddem yn disgwyl i holl staff gael dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gwneud pobl fod yn fwy agored i gael eu denu at derfysgaeth ac i herio syniadau eithafol a ddefnyddir gan grwpiau terfysgaeth a chael eu defnyddio i gyfreithloni terfysgaeth. Dylai fod gan staff ddigon o hyfforddiant i fedru adnabod y bregusrwydd hwn a gwybod sut i ymateb. Os penodir arbenigwr, dylai ddeall y broses a'r polisïau sydd mewn grym pan adnabyddir bregusrwydd, gwybod pa bryd y dylid atgyfeirio at y rhaglen Channel a ble i gael rhagor o gyngor a chymorth.

91. Ar lefel gorfforaethol byddem yn disgwyl i'r sefydliad fod â gweithdrefnau cadarn mewn grym yn fewnol ac yn allanol ar gyfer rhannu gwybodaeth ynglŷn ag unigolion bregus. Dylai hyn gynnwys cytundebau rhannu gwybodaeth ble mae posib gwneud hynny. Ar gyfer sefydliadau mwy sydd â nifer o feysydd llafur ac adrannau, byddem yn disgwyl hefyd gweld panel Channel o staff mewnol i roi cymorth a chyngor a gwneud penderfyniadau cyn rhannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliadau.

92. Fel y corff annibynnol sy'n gyfrifol am safonau a gwella ansawdd mewn addysg bellach, bydd y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant yn cydweithio â'r sector i sicrhau bod yr hyfforddiant priodol ar gael. Bydd hyn yn cynnwys ac yn tynnu gwybodaeth o'r hyfforddiant a ddarperir drwy'r rhwydwaith o gydlynwyr *Atal* addysg bellach rhanbarthol.

### Lles a gofal bugeiliol/cymorth caplaniaeth

93. Mae gan bob sefydliad ddyletswydd gofal dros eu myfyrwyr a byddem yn disgwyl gweld digon o ofal bugeiliol a chymorth i'r holl fyfyrwyr, yn unol ag anghenion penodol y sefydliad hwnnw. Ystyrir hyn yn elfen allweddol wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae cymorth ar gael gan y cydlynydd *Atal* addysg bellach rhanbarthol.

### Siaradwyr a digwyddiadau

94. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd dylai pob sefydliad sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau mewn grym ar gyfer rheoli digwyddiadau a gynhelir ar y safleoedd. Dylai'r polisïau hyn fod yn berthnasol i'r holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr gan egluro'n glir yr hyn sy'n ofynnol i alluogi unrhyw ddigwyddiad gael ei gynnal.

95. Rhaid i sefydliadau addysg gymryd eu cyfrifoldeb o ddifrif wrth wahardd y bobl sy'n hybu safbwyntiau eithafol sy'n cefnogi neu'n ffafrio terfysgaeth. Byddem yn disgwyl i'r polisïau a'r gweithdrefnau gynnwys y canlynol o leiaf:

- Digon o rybudd i alluogi gwiriadau a chanslo os bydd angen gwneud hynny;
- Rhybudd ymlaen llaw o gynnwys y digwyddiad, yn cynnwys amlinelliad o'r pynciau i'w trafod a chael gweld unrhyw gyflwyniadau, delweddau i'w darlledu ac ati;

- System ar gyfer asesu a graddio'r risgiau ynghlwm ag unrhyw ddigwyddiad a gynllunnir, darparu tystiolaeth i awgrymu a ddylid parhau i gynnal y digwyddiad, ei ganslo neu a ddylid cyflwyno unrhyw fesurau lliniarol (er enghraifft aelod o staff yn rhybuddio cydlynwyr Atal addysg uwch ynglŷn â'r pryderon ynghylch siaradwr gwadd); a
- Dull ar gyfer rheoli digwyddiadau neu achosion lle bydd digwyddiadau i ffwrdd o'r campws sy'n achosi pryder yn cael eu hyrwyddo ar y campws.

96. Os yw'n briodol ac yn gyfreithlon gwneud hynny, gall sefydliad sydd â pholisïau a gweithdrefnau cadarn fod â phrotocolau mewn grym hefyd ar gyfer rhannu gwybodaeth â sefydliadau a phartneriaid allweddol eraill.

### Diogelwch ar-lein

97. Fel rhan o'r gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd, dylai fod gan sefydliadau bolisïau yn ymwneud â'r defnydd o TG ar y safle. Tra bydd gan bob sefydliad bolisïau yn ymwneud â defnydd cyffredinol, sy'n cwmpasu'r hyn a ganiateir a'r hyn ni chaniateir, byddem yn disgwyl y byddai pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys cyfeiriad penodol at y ddyletswydd. Mae nifer o sefydliadau addysgiadol eisoes yn hidlo er mwyn cyfyngu mynediad at gynnwys niweidiol, a dylent ystyried defnyddio hidlwyr fel rhan o'u strategaeth gyffredinol i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Byddai disgwyl i'r sefydliadau addysg hynny sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd i blant sicrhau bod y plant hynny'n ddiogel rhag deunydd terfysgol ac eithafol wrth iddynt fynd ar y rhyngrwyd, yn cynnwys sicrhau lefelau priodol o hidlo.

98. Gan y bydd rhai myfyrwyr a staff yn defnyddio TG yn ystod eu cyfnod o ddysgu, ac y gallai hyn gynnwys ymchwil yn ymwneud â therfysgaeth ac atal terfysgaeth, rhaid i'r sefydliad gael polisïau clir mewn grym i adnabod ac ymdrin â sefyllfaoedd lle ceir mynediad at ddeunydd ar-lein er dibenion cwricwlwm.

### Cyfleusterau gweddïo a chrefyddol

99. Byddem yn disgwyl i'r sefydliad gael polisïau clir sydd ar gael yn eang ynglŷn â'r defnydd o ystafelloedd gweddïo a chyfleusterau crefyddol eraill. Dylai'r polisïau hyn amlinellu'r strwythurau sydd mewn grym ar gyfer rheoli cyfleusterau gweddïo a chrefyddol (er enghraifft pwyllgor goruchwyliol) a'r dulliau ar gyfer rheoli unrhyw broblemau a gyfyd yn sgil defnyddio'r cyfleusterau hyn. Dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau nodi'n glir yr amseroedd ac argaeledd y cyfleusterau hyn a sut y rheolir mynediad y tu hwnt i'r oriau agor arferol.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*13. A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys yn y canllaw hwn?*

### Monitro a gorfodi

100. Mae pob coleg addysg bellach a ariennir yn gyhoeddus ynghyd â darparwyr hyfforddiant annibynnol yn rhan o drefniant arolygu Ofsted. Mae'r arolygiad yn seiliedig ar risg ac mae amledd yr arolygiad o'r darparwyr yn ddibynnol ar y risg hon.

101. Mae Ofsted yn arolygu'n unol â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin. Arolygir diogelu fel rhan o ddyfarniadau arweinyddiaeth a rheoli. Ers mis Medi 2014, o ganlyniad i ran Ofsted yn yr achos Ceffyl Troea a chynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, mae arolygiadau Ofsted yn seiliedig ar incwm wedi canolbwyntio'n gynyddol ar werthoedd Prydeinig sylfaenol ac atal eithafiaeth. O ganlyniad mae Ofsted eisoes yn gweithredu yn hyn o beth a bydd yn dwysáu ei weithdrefnau ymhellach wrth i ddeddfwriaeth ddod i rym.

102. Lle bydd Ofsted yn canfod fod sefydliad addysgiadol a ariennir yn gyhoeddus neu ddarparwr hyfforddiant annibynnol, yn annigonol, a fydd yn cynnwys achosion lle na lwyddodd y sefydliad na'r darparwr i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, yna byddai Ofsted yn ymyrryd. Gyda darparwyr annibynnol, canlyniad tebygol hyn fyddai i'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau derfynu eu cytundebau. Gyda sefydliadau addysg bellach a darparwyr awdurdod lleol, canlyniad hyn fyddai i'r Comisiynydd addysg bellach gynnal asesiad ar unwaith. Gallai hyn arwain at newid mewn arweinyddiaeth a llywodraethu, ailstrwythuro neu hyd yn oed ddiddymu dan bwerau wrth gefn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dan y Ddeddf, ac yn dilyn gwaith ymyrryd, byddai'n bosib hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddyd fel y sancsiwn terfynol.

103. I'r sefydliadau hynny nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus a bod ganddynt dros 250 o fyfyrwyr ar safle o fath campws, yn debyg i'r cynigion addysg uwch, rydym yn ystyried a ddylid rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol enwebu corff i gynnal asesiadau yn seiliedig ar risg.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

14. *A ydych chi'n cytuno y dylai Ofsted fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon fel rhan o'i swyddogaeth bresennol o arolygu colegau addysg bellach a ariennir yn gyhoeddus a darparwyr hyfforddiant annibynnol?*
15. *A oes yna gyrff eraill a ddylai fod yn rhan o fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon?*
16. *Ar gyfer y sefydliadau hynny nad ydynt yn cael arian cyhoeddus, pa gorff yn eich barn chi yw'r un gorau ar gyfer cwblhau'r rôl hon?*

## Ysgolion (yn cynnwys addysg uwch a phellach)

104. Yn Lloegr addysgir tua wyth miliwn o blant mewn rhyw 23,000 o ysgolion a ariennir yn gyhoeddus a 2,400 o rai annibynnol. Mae'r system ysgolion a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr yn cynnwys ysgolion a gynhelir (a ariennir gan awdurdodau lleol), ac academïau (a ariennir yn uniongyrchol gan lywodraeth ganolog).

105. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion a ariennir yn gyhoeddus i ddysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau mewn bywyd. Rhaid iddynt hyrwyddo cydlyniad cymuned hefyd. Mae ysgolion annibynnol yn gosod eu cwricwlwm eu hunain ond rhaid iddynt gydymffurfio â Safonau Ysgolion Annibynnol, sy'n cynnwys gofyniad penodol i hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig sylfaenol fel rhan o ofyniad ehangach i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r safonau hyn yn berthnasol hefyd i academïau, yn cynnwys ysgolion am ddim, gan eu bod yn ysgolion annibynnol. Mae canllawiau ar hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig sylfaenol ar gael yn:

**https://www.gov.uk/government/news/guidance-on-promoting-british-values-in-schools-published**

106. Mae gan ysgolion ddyletswydd gofal i'w disgyblion a'u staff. Mae hyn yn cynnwys eu diogelu rhag y risg i gael eu denu i derfysgaeth. Mae cael eich denu i derfysgaeth nid yn unig yn cynnwys eithafiaeth dreisgar ond eithafiaeth ddi-drais hefyd, a all greu amgylchedd sy'n cefnogi terfysgaeth gan achosi i safbwyntiau ddod yn boblogaidd a gall terfysgwyr fanteisio ar hynny. Dylai ysgolion fod yn lleoedd diogel lle y gall plant a phobl ifanc ddeall a thrafod pynciau sensitif, yn cynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgaeth, gan ddysgu sut i herio'r syniadau hyn.

### Awdurdodau addysg a gofal plant penodedig

107. Yr awdurdodau addysg penodedig yn Atodlen 3 o'r Ddeddf yw:

- Ysgolion a gynhelir
- Ysgolion arbennig nas cynhelir
- Academïau gyda darpariaethau amgen
- Ysgolion annibynnol
- Unedau Cyfeirio Disgyblion
- Meithrinfeydd a gynhelir
- Darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar cofrestredig[1]
- Darparwyr gofal plant blynyddoedd hwyrach cofrestredig[2]
- Gofal plant mewn ysgolion sydd wedi ei eithrio rhag cofrestru
- Cynlluniau gwyliau ar gyfer plant anabl

1 Y rhai hynny sydd wedi'u cofrestru dan Bennod 2 o Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006, yn cynnwys gwarchodwyr plant

2 Y rhai hynny sydd wedi'u cofrestru dan Bennod 3 o Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006, yn cynnwys gwarchodwyr plant

- Unigolion y mae swyddogaethau awdurdodau lleol yn cael eu hallanleoli iddynt pan na fydd awdurdod lleol yn perfformio'n foddhaol.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*17. A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys yn y canllaw hwn?*

108. Wrth gyflawni dyletswydd newydd, byddem yn disgwyl i berchnogion, llywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion ddangos gweithgarwch yn y meysydd canlynol.

## Asesiad risg

109. Disgwylir i uwch reolwyr a llywodraethwyr asesu'r risg o ddisgyblion yn cael eu denu i derfysgaeth, yn cynnwys cefnogi'r syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgaeth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth, a rennir â phartneriaid, o'r risg bosib yn lleol.

110. Bydd yn rhaid i sefydliadau ddangos eu bod yn diogelu plant a phobl ifanc rhag cael eu denu i derfysgaeth drwy sefydlu polisïau diogelu cadarn i adnabod y plant sydd mewn perygl, ac ymyrryd yn briodol (drwy gyfeirio plant at Channel neu Ofal Cymdeithasol Plant, er enghraifft). Dylai'r polisïau hyn osod protocolau clir i sicrhau bod unrhyw siaradwyr gwadd – drwy wahoddiad staff neu'r disgyblion eu hunain – yn rhai addas ac yn cael eu goruchwylio'n briodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

111. Dylai sefydliadau sicrhau yr hyrwyddir gwerthoedd Prydeinig sylfaenol wrth ddarparu'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol a'u hadlewyrchu yn ymddygiad cyffredinol yr ysgol.

## Gweithio mewn partneriaeth

112. Bydd gofyn i sefydliadau weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill yn yr ardal. Yn neilltuol, dylai cyrff llywodraethu a pherchnogion holl ysgolion sicrhau bod eu trefniadau diogelwch yn ystyried gweithdrefnau ac arferion yr awdurdod lleol fel rhan o'r gweithdrefnau diogelwch rhyngasiantaethol a sefydlir gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB). Dylai polisïau diogelu plant ysgolion ddisgrifio'r gweithdrefnau sydd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a chyfeirio at weithdrefnau rhyngasiantaethol a gytunir arnynt yn lleol, a sefydlir gan yr LSCB.

## Hyfforddiant staff

113. Dylai uwch reolwyr a llywodraethwyr sicrhau bod gan staff yr hyfforddiant sy'n rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddynt adnabod plant sydd mewn peryg o gael eu denu i derfysgaeth a herio syniadau eithafol a ellir eu defnyddio i gyfreithloni terfysgaeth ac sy'n cael eu rhannu gan grwpiau terfysgol. Dylent wybod i ble a sut y dylid cyfeirio plant a phobl ifanc am ragor o gymorth. Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* yn rhan allweddol o hyn.

## Diogelwch ar-lein

114. Disgwylir i sefydliadau sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunydd terfysgol ac eithafol wrth gael mynediad at y rhyngrwyd yn yr ysgol, yn cynnwys sefydlu lefelau priodol o hidlo.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*18. A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys yn y canllaw hwn?*

## Monitro a gorfodi

115. Mae pob ysgol a ariennir yn gyhoeddus – yn cynnwys academïau ac ysgolion am ddim – yn cael eu harolygu gan y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) ac yn destun ymyrraeth os na lwyddant i ddarparu addysg foddhaol. Os bydd y methiant yn un sylweddol gall y corff llywodraethu gael ei ddisodli neu ei gau. Wrth asesu effeithiolrwydd ysgolion, mae arolygwyr Ofsted eisoes yn edrych ar ddull yr ysgol o gadw disgyblion yn ddiogel rhag perygl radicaliaeth ac eithafiaeth, ac ar weithdrefnau pan honnir bod disgyblion yn cael eu denu i eithafiaeth neu weithgarwch terfysgol.

116. Arolygir ysgolion annibynnol gan Ofsted neu gan un o dair arolygiaeth annibynnol. Os na fydd yr ysgol yn llwyddo i fodloni Safonau Ysgolion Annibynnol, rhaid iddi ddatrys y broblem neu fod yn destun gweithredu rheoleiddiol, a allai gynnwys dadgofrestru (ac felly byddai eu parhad i weithredu fel ysgol yn anghyfreithlon).

117. Diwygiwyd rheoliadau ar gyfer ariannu addysg gynnar i sicrhau nad yw darparwyr sy’n methu â hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol Prydain o ddemocratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharch y naill i’r llall a bod yn oddefgar o’r rhai sydd â gwahanol ffydd a chredoau, yn cael eu hariannu.

118. Mae fframwaith arolygu presennol Ofsted ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar yn adlewyrchu’r gofynion yn y Fframwaith Statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaenol Blynyddoedd Cynnar.

## Y sector iechyd

119. Bydd pobl broffesiynol o'r maes gofal iechyd yn cwrdd ac yn trin pobl a all fod yn fregus ac yn debygol o gael eu denu i derfysgaeth. Mae cael eich denu i derfysgaeth yn cynnwys eithafiaeth ddi-drais yn ogystal ag eithafiaeth dreisgar, a all achosi amgylchedd sy'n ffafrio terfysgaeth a ffafrio barnau y gall terfysgwyr fanteisio arnynt. Yr her allweddol i'r sector gofal iechyd yw sicrhau, pan welir arwyddion bod rhywun wedi neu yn cael ei ddenu i derfysgaeth, bod y gweithiwr gofal iechyd wedi'i hyfforddi i adnabod yr arwyddion hynny ac yn ymwybodol o gymorth lleol a sut i'w gael, yn cynnwys y rhaglen Channel yn ôl yr angen. Mae atal rhywun rhag cael ei ddenu i derfysgaeth yn rhywbeth i'w gymharu mor sylweddol â diogelu mewn meysydd eraill, fel cam-drin plant neu drais yn y cartref.

120. Mae trefniadau sefydlog eisoes mewn grym, a byddem yn disgwyl iddynt gael eu datblygu ymhellach mewn ymateb i'r ddyletswydd statudol.

### Awdurdodau iechyd penodedig

121. Yr awdurdodau iechyd penodedig yn Atodlen 3 o'r Bil yw:

- Ymddiriedolaethau GIG
- Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*19. A oes yna sefydliadau eraill, heb eu rhestru yma, y dylid eu cynnwys yn y ddyletswydd? Eglurwch pam.*

122. Mae GIG Lloegr wedi ymgorffori *Atal* i'w drefniadau diogelwch, er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o *Atal* a hyfforddiant perthnasol arall yn cael ei ddarparu ar gyfer pob staff sy'n darparu gwasanaethau i gleifion GIG. Bu'r trefniadau hyn yn effeithiol a dylent barhau.

123. Mae gan y Prif Swyddog Nyrsio yn GIG Lloegr gyfrifoldeb am yr holl waith diogelwch, ac mae swyddog arweiniol ar ddiogelwch, sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Nyrsio, yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r gwaith o sefydlu rhaglen *Atal* i mewn i weithdrefnau diogelwch ar draws y GIG.

124. Mae gan bob tîm rhanbarthol yn y GIG Bennaeth Profiad y Claf sy'n arwain ar ddiogelwch yn ei ranbarth. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am ddarparu strategaeth *Atal* yn ei ardal yn ogystal â'r cydlynwyr iechyd *Atal* rhanbarthol (RPCs).

125. Disgwylir i'r RPCs hyn gael cyswllt rheolaidd ag arweinwyr *Atal* mewn sefydliadau GIG ac i gynnig cyngor ac arweiniad.

126. Wrth gyflawni'r ddyletswydd, byddem yn disgwyl i gyrff iechyd ddangos gwaith effeithiol yn y meysydd canlynol.

### Partneriaeth

127. Dan Fframwaith Atebolrwydd a Sicrwydd y GIG yn Lloegr, dylai'r holl Dimau Ardal (dan bedwar rhanbarth y GIG) fod â Fforymau Diogelwch lleol mewn grym, yn cynnwys comisiynwyr lleol a darparwyr Gwasanaethau GIG. Mae gan y Fforymau hyn oruchwyliaeth

dros gydymffurfio â'r ddyletswydd a sicrhau darpariaeth effeithiol. O fewn pob ardal, mae'r RPCs yn gyfrifol am hyrwyddo *Atal* i ddarparwyr a chomisiynwyr o wasanaethau GIG, gan gefnogi sefydliadau i sefydlu *Atal* yn eu polisïau a gweithdrefnau, a darparu hyfforddiant.

128. Byddem yn disgwyl gweld dulliau ar gyfer adrodd ar faterion i is-fwrdd Cenedlaethol *Atal*.

129. Byddem yn disgwyl hefyd i'r arweinydd *Atal* fod â rhwydweithiau yn eu lle ar gyfer ei gwaith cynghori a chefnogi ei hun er mwyn medru atgyfeirio at y rhaglen Channel.

130. Ers mis Ebrill 2013 bu comisiynwyr yn defnyddio Cytundeb Safonol y GIG ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynir, ac eithrio Gofal Sylfaenol, yn cynnwys sefydliadau preifat a gwirfoddol. Ers y cyfnod hwnnw, mae adran Ddiogelu'r cytundeb wedi mynnu bod darparwyr yn sefydlu *Atal* yn eu darpariaeth o wasanaethau, polisïau a hyfforddiant. Dylai hyn yn awr gael ei atgyfnerthu gan y ddyletswydd statudol.

## Asesiad Risg

131. Mae gan bob Ymddiriedolaeth GIG arweinydd *Atal* sy'n gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y cydlynwyr iechyd rhanbarthol *Atal*, ac mae'n gyfrifol am roi *Atal* ar waith o fewn ei sefydliad. I gydymffurfio â'r ddyletswydd, disgwylir i staff, yn sgil eu hyfforddiant, adnabod ac atgyfeirio'r rhai sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth at yr arweinydd *Atal* a all atgyfeirio ymlaen at y rhaglen Channel. Gall cydlynwyr iechyd rhanbarthol *Atal* ddarparu cyngor a chymorth i staff yn ôl yr angen.

## Hyfforddiant Staff

132. Mae'r canllaw rhyng-golegol, *Diogelu Plant a Phobl ifanc: rolau a chymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd* yn cynnwys gwybodaeth ar *Atal* ac yn adnabod cymwyseddau ar gyfer holl staff gofal iechyd yn erbyn chwe lefel. Mae hyn yn ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o *Atal* i dros 90% o staff.

133. Dylai'r hyfforddiant alluogi'r holl staff perthnasol i adnabod rhai sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth, yn cynnwys syniadau eithafol a ellir eu defnyddio i gyfreithloni terfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgol, a bod yn ymwybodol o sut i ymateb, yn cynnwys prosesau a pholisïau lleol a fydd yn eu galluogi i wneud atgyfeiriadau i'r rhaglen Channel a sut i gael rhagor o gyngor a chymorth.

134. Mae'n bwysig bod staff yn deall sut i gynnal cydbwysedd rhwng cyfrinachedd y claf a'r ddyletswydd. Dylent fod yn ymwybodol hefyd o'r cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli ar gyfer rhannu gwybodaeth â sectorau eraill, a chael cyngor a chymorth ar faterion o gyfrinachedd wrth ymateb i dystiolaeth bosib bod rhywun yn cael ei ddenu at derfysgaeth, un ai yn ystod cyswllt anffurfiol neu ymgynghoriaeth a thriniaeth.

135. Byddem yn disgwyl felly i ddarparwyr gael:

- Polisïau sy'n cynnwys egwyddorion canllaw a phecyn cymorth Atal GIG, a osodir yn Meithrin Partneriaethau, Cadw'n Ddiogel: canllaw ar gyfer sefydliadau gofal iechyd, sydd ar gael yma:

  **https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/215253/dh_131912.pdf**

- Rhaglen i ddarparu hyfforddiant Atal, sy'n cynnwys hwyluswyr achrededig;
- Prosesau mewn grym sy'n sicrhau, drwy ddefnyddio'r canllaw rhyng-golegol, bod staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Atal sy'n addas i'w rôl; a
- Gweithdrefnau i gydymffurfio â Fframwaith Hyfforddiant a Chymwyseddau Atal.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

20. *A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys yn y canllaw hwn?*

## Monitro a gwerthuso

136. Yn y GIG, disgwyliwn i fforymau diogelu lleol, yn cynnwys comisiynwyr a darparwyr lleol o Wasanaethau GIG, oruchwylio'r gwaith o gynnal y ddyletswydd a sicrhau darpariaeth effeithiol.

137. Yn allanol, Monitor yw rheoleiddiwr y sector ar gyfer y gwasanaethau iechyd yn Lloegr, gan sicrhau bod Ymddiriedolaethau Sylfaenol y GIG yn cael eu harwain yn dda er mwyn iddynt fedru darparu gofal o safon uchel yn gynaliadwy. Awdurdod Datblygu'r Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad Ymddiriedolaethau'r GIG, a'r Comisiwn Ansawdd Gofal yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion sy'n sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac o safon uchel i bobl.

138. Rydym yn ystyried a yw'r trefniadau mewnol hyn yn ddigon cadarn i fedru monitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd yn effeithiol, neu a ddylid ymgorffori'r ddyletswydd i swyddogaeth a gweithdrefnau arolygu un o'r cyrff iechyd rheoleiddiol presennol, neu gorff arall.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

21. *Sut allai'r cyrff gofal iechyd a rheoleiddiol presennol fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon?*

## Carchardai a phrawf

139. Fel asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), yn gyfrifol am warchod y cyhoedd a lleihau aildroseddu drwy ddarparu gwasanaethau carchar a phrawf.

140. Mae 122 o garchardai yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys 14 ohonynt sydd dan gytundeb gyda sefydliadau o'r sector preifat. Mae tua 85,000 o garcharorion dan glo a 150,000 o unigolion yn y ddalfa dros gyfnod o 12 mis.

141. Darperir gwasanaethau prawf gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), sy'n goruchwylio troseddwyr risg uchel a throseddwyr difrifol eraill, a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs), sy'n goruchwylio troseddwyr risg isel a chanolig. Ar hyn o bryd mae NOMS yn gyfrifol am tua 220,000 o droseddwyr dan oruchwyliaeth brawf, un ai'n destun dedfrydau cymunedol neu amodau trwydded wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa.

142. Mae'r cyfrifoldeb hwn am ddiogelwch y cyhoedd a lleihau aildroseddu yn rhoi rôl glir a phwysig i wasanaethau carchardai a phrawf wrth weithio â throseddwyr a gollfarnwyd am droseddau terfysgol neu ynghlwm â therfysgaeth, ac wrth geisio atal troseddwyr eraill rhag cael eu denu i derfysgaeth a'r syniadau eithafol a ddefnyddir i gyfreithloni terfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgol.

### Awdurdodau cyfiawnder troseddol penodedig

143. Dyma'r awdurdodau cyfiawnder troseddol a restrir yn Atodlen 3 o'r Ddeddf:

- Carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, yn cynnwys y rhai a gontractir allan;
- Canolfannau hyfforddi diogel;
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; a
- Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*22. A oes yna sefydliadau eraill, heb eu rhestru yma, y dylid eu cynnwys yn y ddyletswydd? Eglurwch pam.*

## Carchardai

144. Fel rhan o'i fusnes craidd, mae NOMS yn rheoli'r perygl o droseddwyr yn cael eu denu i, neu droi eto at unrhyw fath o droseddu (adnabod a rheoli'r perygl a gyflwynir gan droseddwyr).

145. I gydymffurfio â'r ddyletswydd disgwyliwn i garchardai cyhoeddus a'r rhai a gontractir allan gynnal gweithgarwch yn y meysydd canlynol.

## Asesiad risg rhagarweiniol

146. Dylai carchardai gynnal asesiadau risg rhagarweiniol wrth i'r carcharor gyrraedd, yn cynnwys asesiadau risg rhannu cell, a chyfweliadau wrth gyrraedd a chynefino.

147. Dylid cysylltu â chaplaniaeth carchardai, yn enwedig pan fydd asesiad cychwynnol y carcharor yn achosi pryder. Dylai asesiad cychwynnol y gaplaniaeth geisio sefydlu'r lefel o wybodaeth am grefydd ac am ba hyd y bu'r carcharor yn ymarfer ei grefydd, a chwilio am unrhyw arwydd bod y carcharor yn cefnogi ideoleg eithafol neu derfysgaeth.

148. Dylai carcharorion gael cyswllt rheolaidd gyda staff hyfforddedig a fydd yn creu darlun o gudd-wybodaeth am y carcharor.

149. Dylid rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth briodol gyda phartneriaid plismona, i benderfynu a yw eithafiaeth yn destun i'w ystyried ac i adnabod a rheoli unrhyw ymddygiadau sy'n achosi pryder.

## Asesu risgiau ac ymyriadau parhaus

150. Ar gyfer troseddwyr a gollfarnwyd am droseddau terfysgol neu'n gysylltiedig â therfysgaeth, defnyddir prif brosesau rheoli troseddwyr i bennu a yw ymyriadau'n angenrheidiol. Diben y rhain yw herio'r mynegai trosedd a gall gynnwys, os yw'n briodol, amharu ac adleoli.

151. Pan adnabyddir pryder ynglŷn â rhywun yn cael ei ddenu i derfysgaeth (sy'n cynnwys rhywun â syniadau eithafol a ddefnyddir i gyfreithloni terfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgol), un ai yn ystod y dyddiau cynnar o fod yn y ddalfa, neu'n ddiweddarach, dylai staff y carchar adrodd yn briodol, drwy'r system adrodd cudd-wybodaeth. Dylid asesu adrodd o'r fath yn rheolaidd gan staff arbenigol yn unol â gwaith yr heddlu.

152. Pan adnabyddir pryderon o'r fath dylai sefydliad geisio cefnogi'r unigolyn hwnnw. Gallai hyn olygu ei symud i ffwrdd o ddylanwad negyddol neu ei fentora gyda chaplan perthnasol neu ei roi mewn dosbarthiadau crefyddol.

153. Gallai gwaith rheoli hefyd olygu lleihau lefel breintiau, ymyrraeth gwrth-fwlio, dyfarniad neu wahaniad. Neu, gall fod yn briodol cynnig ymyriadau diwinyddol, cymhellol ac ymddygiadol.

154. Dylid parhau i sicrhau bod pecynnau cudd-wybodaeth a briffio a dargedir at staff sy'n gweithio gyda charcharorion terfysgol neu eithafol a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu denu at derfysgaeth, ar gael ac yn cael eu cyflawni. Dylid parhau i ddarparu'r rhain ar y cyd gan staff gwrthderfysgaeth yn y carchardai a'r heddlu, a'u diweddaru'n rheolaidd. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, dylid cynyddu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o eithafiaeth i staff newydd.

## Trosglwyddo o fod yn y ddalfa i fod dan oruchwyliaeth yn y gymuned

155. Dylid cynllunio cyn rhyddhau ar gyfer pob carcharor, yn cynnwys y rhai sydd â dedfrydau sy'n llai na 12 mis, a fydd yn awr yn cael rhyw gymaint o oruchwyliaeth ar ôl cael eu rhyddhau. Dylai carchardai, darparwyr prawf a'r heddlu ystyried pa risgiau fydd angen eu rheoli yn y gymuned yn cynnwys y rhai hynny a ddaeth i'r amlwg yn y ddalfa ac sy'n dangos elfen o fregusrwydd o ran carcharor gael ei ddenu at derfysgaeth. Mewn achos o'r fath, ystyrir

atgyfeiriad Channel fel rhan o'r cynlluniau rheoli risg gan atgyfeirio at Channel cyn gynted â phosib.

156. Ar gyfer troseddwyr a gollfarnwyd eisoes am droseddau terfysgol neu'n ymwneud â therfysgaeth, bydd carchardai yn cwblhau prosesau cyn rhyddhau priodol fel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) gydag asiantaethau perthnasol yn cynnwys yr heddlu. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod gofynion y ddyletswydd yn cael eu bodloni wrth reoli troseddwyr terfysgol yn y gymuned.

157. Ar gyfer pob carcharor, lle bydd digon o'r ddedfryd ar ôl, dylid cynnal cyfarfod amlasiantaethol, yn cynnwys yr heddlu, i fwydo penderfyniadau ar ôl rhyddhau. Bydd hyn yn sicrhau bod asiantaethau partneriaethol yn cydweithio i rannu gwybodaeth berthnasol a pharatoi ar gyfer rheoli'r risg neu unrhyw bryderon amlwg.

158. Lle bydd digon o amser yn weddill, dylai staff gwrthderfysgaeth fel yr uchod friffio'r heddlu a staff prawf yn gyflym a bydd arweinydd elfen gwrthderfysgaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn sicrhau bod y darparwr prawf yn y gymuned yn ymwybodol o'r wybodaeth hon, y risgiau a'r staff perthnasol sy'n gweithio i'r asiantaethau partneriaethol.

### Hyfforddiant staff

159. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd, byddem yn disgwyl i bob aelod newydd o staff carchar gael hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* (wedi ei deilwra'n neilltuol i amgylchedd carchar). Ar gyfer staff sydd eisoes mewn swyddi, dylid darparu hyn drwy hyfforddiant arbenigol a phecynnau briffio sy'n cwmpasu gweithio gydag ymddygiad eithafol. Dylid darparu'r hyfforddiant hwn mewn partneriaeth â'r heddlu a bod ar gael i'r staff hynny sy'n gweithio agosaf â charcharorion terfysgol a'r rhai a adnabyddir fel rhai eithafol. Dylid hyfforddi'r holl staff mewn systemau cudd-wybodaeth cyffredinol, gweithdrefnau a sut i adrodd er mwyn iddynt fedru delio'n effeithiol â charcharorion eithafol a'r rhai hynny sy'n fregus ac yn agored i negeseuon eithafol.

## Prawf

160. I gydymffurfio â'r ddyletswydd byddem yn disgwyl i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs) ddangos eu bod yn cyflawni gweithgareddau dan bob un o'r categorïau canlynol.

### Arweinyddiaeth

161. Byddem yn disgwyl i bob adran NPS gael arweinydd gwrthderfysgaeth prawf penodedig (PCTL) i ddarparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol ar lefel ranbarthol i sicrhau bod y prosesau ar gyfer adnabod, asesu a rheoli troseddwyr terfysgol risg uchel, yn cael eu dilyn. Byddem yn disgwyl i'r PCTLs ddarparu rôl ymgynghorol ar gyfer y CRCs.

### Partneriaethau

162. Mae'r NPS a'r CRCs yn bartneriaid mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol (CSPs). Bydd cyfranogiad pwrpasol yn y CSPs yn galluogi darparwyr prawf i gydweithio â phartneriaid eraill i rannu gwybodaeth a datblygu atgyfeiriadau ac ymyriadau ar y cyd.

## Asesiad risg

163. Byddem yn disgwyl i brosesau asesiad risg presennol cyn dedfrydu, yn dilyn rhyddhau o'r ddalfa ac (ar gyfer dedfrydau cymunedol) ar ddechrau dedfryd, gael eu defnyddio i adnabod y bobl hynny sydd mewn peryg o gael eu denu at derfysgaeth a / neu sydd wedi mabwysiadau syniadau eithafol sy'n cefnogi cyfreithloni gweithgarwch yn ymwneud â therfysgaeth. Yn ogystal, byddem yn disgwyl prosesau asesiad risg presennol gael eu hategu gan asesiadau arbenigol, er enghraifft, sgrinio risg eithafol. Byddem yn disgwyl i PCTLs gynnig rôl ymgynghorol i CRCs wrth wneud hynny, os yw hynny'n briodol.

164. Ar gyfer troseddwyr sydd eisoes wedi'u collfarnu am droseddau terfysgol neu'n ymwneud â therfysgaeth, byddem yn disgwyl i ddarparwyr weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, yn cynnwys carchardai a'r heddlu, i reoli unrhyw risgiau a amlygwyd drwy MAPPA a'r ddarpariaeth o ymyriadau neilltuol. Ar gyfer troseddwyr nad ydynt wedi eu collfarnu am drosedd yn ymwneud â therfysgaeth ond sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth, byddem yn disgwyl darparwyr prawf gael prosesau ar waith i gyfeirio'r achosion hyn fel blaenoriaeth at asiantaethau eraill neu atgyfeirio'r troseddwr at ymyriadau priodol – er enghraifft y rhaglen Channel.

## Hyfforddiant staff

165. Byddem yn disgwyl i ddarparwyr prawf sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant priodol i adnabod a rheoli'r rhai sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth yn cynnwys y rhai sydd â syniadau eithafol a all gael eu defnyddio i gyfreithloni terfysgaeth ac a rennir gan grwpiau terfysgaeth. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* eisoes wedi ei roi i staff prawf. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd, byddem yn disgwyl i hyn a hyfforddiant *Atal* perthnasol barhau.

166. Yn y dyfodol, disgwyliwn i hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* gael ei gynnwys yn Fframwaith Cymhwysedd Prawf, sydd i'w gwblhau gan bob staff cymwys newydd yn yr NPS a'r CRCs. Yn ogystal dylai PCTLs arwain ar y datblygiad o hyfforddiant lleol a datblygiad staff i ategu hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal*. Dylai hyn ganolbwyntio ar faterion sy'n dod i'r amlwg ac unrhyw gymorth ac ymyriadau newydd a ddaw ar gael.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*23. A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys ar gyfer carchardai a darparwyr prawf?*

## Gwaith monitro a gorfodi ar gyfer carchardai a phrawf.

167. Mewn **carchardai**, byddem yn disgwyl cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gael ei monitro a'i gorfodi'n fewnol gan:

- Gydymffurfiaeth orfodol gyda Chyfarwyddiadau a Gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai sy'n diffinio polisi a'r arfer orau; ac
- Asesiad rheolaidd o lefelau a risg eithafiaeth a radicaliaeth yn fewnol drwy gydlynwyr gwrthderfysgaeth rhanbarthol.

168. Yn allanol, ein dewis yw defnyddio gweithdrefnau arolygu allanol lle bydd hi'n briodol gwneud hynny. Ystyriwn y gallai arolygiad thematig gan Arolygwr Carchardai Ei Mawrhydi fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r trefniadau monitro a amlinellir uchod.

169. Ar gyfer **darparwyr prawf**, yn fewnol byddem yn disgwyl cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gael ei hatgyfnerthu gan ganllawiau gweithredol manwl a osodir mewn Cyfarwyddiadau prawf. Mae'n ofynnol i CRCs gydymffurfio'n gytundebol â'r Cyfarwyddiadau Prawf perthnasol ac mae gofyniad tebyg yn bodoli ar gyfer yr NPS mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Mae cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Prawf yn cael ei monitro a'i sicrhau'n fewnol gan reolaeth o gytundebau a swyddogaethau archwilio o fewn NOMS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

170. Yn allanol, ystyriwn y gallai archwiliad thematig gan Archwiliwr Prawf Ei Mawrhydi fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r trefniant monitro a amlinellir uchod.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*24. Beth fyddai'r ffordd orau i'r arolygiaethau fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon?*

## Yr Heddlu

171. Nid rhaglen a gynhelir gan yr heddlu yw *Atal.* Ond mae'r heddlu'n chwarae rhan hanfodol yn y rhan helaeth o waith *Atal*; maent yn dal gwybodaeth a all helpu i asesu'r peryg o radicaliaeth, ymyrryd â phobl sy'n ceisio denu eraill at derfysgaeth (sy'n cynnwys nid yn unig eithafiaeth dreisgar ond eithafiaeth ddi-drais hefyd, a all greu amgylchedd sy'n ffafrio terfysgaeth a gwneud barnau terfysgol yn boblogaidd, y gall terfysgwyr fanteisio arnynt), a chefnogi pobl sy'n agored i gael eu denu at derfysgaeth. Mae ganddynt ystod eang o gysylltiadau beunyddiol â chymunedau a phartneriaid eraill gyda chyfrifoldebau *Atal*. Mae angen i waith *Atal* fod yn rhan o nifer o agweddau ar blismona yn cynnwys patrolio, swyddogaethau cymdogol a diogelu. Mae'r heddlu mewn sefyllfa unigryw o fedru delio â therfysgaeth ac i herio syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg derfysgaeth.

### Awdurdodau heddlu penodedig

172. Dyma'r awdurdodau heddlu penodedig a restrir yn Atodlen 3 o'r Ddeddf:

- Heddluoedd Cymru a Lloegr;
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu;
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig;
- Heddluoedd Porthladdoedd; ac
- Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil

173. Wrth gyflawni'r ddyletswydd newydd byddem yn disgwyl i'r heddlu weithredu yn y meysydd canlynol.

### Partneriaeth ac asesiad risg

174. Dylai'r heddlu:

- Ymgysylltu'n llawn â'r grwpiau amlasiantaethol lleol a fydd yn asesu'r risg o bobl gael eu denu i derfysgaeth, gan ddarparu (lle bydd hynny'n briodol) fanylion o broffil gwrthderfysgaeth lleol yr heddlu (CTLP);
- Cefnogi datblygu a gwireddu cynllun gweithredu Atal gan y grŵp amlasiantaethol, i ddelio â'r risg honno;
- Cefnogi cydlynwyr Atal awdurdod lleol, cydlynwyr addysg bellach ac uwch rhanbarthol, arweinwyr iechyd Atal rhanbarthol a chydlynwyr NOMS Atal rhanbarthol wrth iddynt wneud eu gwaith;
- Gweithio gydag awdurdodau penodedig eraill, er enghraifft awdurdodau lleol neu brifysgolion, i gefnogi gweithredu effeithiol a chymesur mewn perthynas â siaradwyr eithafol;
- Cydgordio'r ddarpariaeth o'r rhaglen Channel drwy dderbyn atgyfeiriadau, yn cynnwys gweithredu fel llwybr ar gyfer atgyfeiriadau Channel gyda phartneriaid;
- Sicrhau bod dulliau ar gael i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu ag asiantaethau partneriaethol os yw'n briodol gwneud hynny; a

- Chynnal asesiadau risg cyn unrhyw weithredu gwrthderfysgaeth cyn ac ar ôl gan yr heddlu (fel arestio neu chwilio) er mwyn adnabod unigolion bregus a lleoliadau a all fod yn destun ymyriadau Atal.

175. Mae llwyddiant gwaith *Atal* yn dibynnu ar gymunedau yn cefnogi ymdrechion i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a herio syniadau eithafol sydd hefyd yn rhan o ideoleg terfysgaeth. Mae gan yr heddlu rôl gritigol wrth helpu cymunedau i wneud hyn. I gydymffurfio â'r ddyletswydd, byddem yn disgwyl i'r heddlu, wrth gydweithio ag eraill, feithrin cadernid cymunedol drwy:

- Ddatblygu prosiectau sy'n gysylltiedig ag Atal; a
- Darparu canllawiau i osgoi arian rhag cael ei roi yn esgeulus i sefydliadau a all hyrwyddo eithafiaeth neu derfysgaeth.

## Erlyn ac ymyrryd ag eithafwyr a'u hatal

176. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd, dylai'r heddlu ymgysylltu'n â gweithgarwch eithafol ag ymyrryd â hynny'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Disgwyliwn i'r heddlu flaenoriaethu prosiectau i ymyrryd â deunydd terfysgol ac eithafol ar y rhyngrwyd ac eithafwyr sy'n gweithio yn y wlad hon. Dylai swyddogion ystyried yr ystod lawn o ddewisiadau archwiliol ac erlyn wrth ddelio ag ymddygiad eithafol, yn cynnwys y defnydd o bwerau trefn gyhoeddus lle bydd hynny'n briodol. Gall hyn gynnwys:

- Gorfodi deddfwriaeth gwahardd; a
- Cydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried pwerau dinesig, yn cynnwys priffyrdd lleol a thaflenni ar is-ddeddfau, a defnyddio deddfwriaeth sy'n diogelu pobl ifanc.

**Cwestiwn ar gyfer ymgynghoriad**

*25. A oes yna feysydd eraill o weithgarwch, neu enghreifftiau o arfer dda, y dylid eu cynnwys ar gyfer yr heddlu?*

## Monitro a gorfodi

177. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol yn egluro bod yn rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid ddangos eu bod wedi cyfrannu at strategaeth gwrthderfysgaeth y llywodraeth (CONTEST). Mae hyn yn cynnwys y rhaglen *Atal* lle mae gofyn iddynt ystyried yr angen i adnabod y rhai sydd ynghlwm neu sy'n fregus o ran cael eu denu i radicaliaeth, a'u cyfeirio i ffwrdd o'r fath weithgarwch. Gall yr Ysgrifennydd Cartref orchymyn PCC i weithredu'n benodol er mwyn delio â methiant neilltuol.

178. Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yw'r corff statudol ar gyfer arolygu'r heddlu. Gall gynnal archwiliadau thematig a chael cais yr Ysgrifennydd Cartref i archwilio unrhyw heddlu penodol.